Adroddiad Arholwyr TGAU (Hen gymhwyster)

Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant

TGAU (Hen gymhwyster)

Haf 2026

© WJEC CBAC Ltd.2026



Cyflwyniad

Mae adroddiad yr Uwch Arholwyr yn rhoi adborth gwerthfawr ar y gyfres asesu ddiweddar. Yr Uwch Arholwyr a'r Uwch Gymedrolwyr sy'n ysgrifennu'r ddogfen hon ar ôl cwblhau'r marcio a'r cymedroli, ac mae'n cynnwys manylion ynghylch perfformiad ymgeiswyr ym mhob uned.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau â chrynodeb o berfformiad ymgeiswyr, gan gynnwys yr amcanion asesu/sgiliau/testunau/themâu sy'n cael eu profi, ac yn tynnu sylw at nodweddion perfformiad llwyddiannus a lle gellid gwella perfformiad. Yna mae'n edrych ar bob uned yn fanwl, gan nodi agweddau oedd yn heriol i rai ymgeiswyr ac awgrymu rhesymau posibl dros hynny.[1]

Mae'r wybodaeth sydd i'w chael yn yr adroddiad hwn yn helpu ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth werthfawr i gefnogi eu gweithgaredd addysgu a dysgu. Byddem hefyd yn annog ymarferwyr i rannu'r ddogfen hon – yn ei chyfanrwydd neu rannau ohoni – â'u dysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau, i ddeall sut i osgoi diffygion annisgwyl ac i ychwanegu at eu pecyn cymorth adolygu.

Cefnogaeth bellach

Mapio	Disgrifiad	Cyswllt
Dysgu Proffesiynol / DPP	Mae CBAC yn cynnig rhaglen eang o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cofrestrwch ar gyfer un o'n digwyddiadau yma i weld adborth rhyngweithiol, adolygu ymatebion enghreifftiol gan ymgeiswyr, cael syniadau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gofyn cwestiynau i'n tîm ymroddedig.	https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/
Cyn-bapurau	Manteisiwch ar y banc o gyn-bapurau ar gyfer y cymhwyster hwn, gan gynnwys yr asesiadau mwyaf diweddar. Noder na fydd y cyn-bapurau ar gael ar y wefan gyhoeddus hyd nes 12 mis ar ôl yr arholiad.	Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC
Gwybodaeth am ffiniau graddau	Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Ar gyfer manylebau unedol, mynegir ffiniau graddau ar Raddfa Marciau Unffurf (GMU). Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned. Gyda manylebau llinol, dyfernir un radd am y pwnc, yn hytrach nag ar gyfer pob uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar ddiwrnod y canlyniadau.	Ar gyfer manylebau unedol, cliciwch yma: Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau (cbac.co.uk)

[1] ***Noder: lle ystyriwyd bod perfformiad cyffredinol mewn cwestiwn/rhan o gwestiwn yn dda, heb unrhyw feysydd penodol i dynnu sylw atynt, nid yw'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.***

© WJEC CBAC Ltd.2026

Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau	Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar Porth CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.	Porth CBAC
Adnoddau Ystafell Ddosbarth	Manteisiwch ar ein hamrywiaeth eang o adnoddau ystafell ddosbarth RHAD AC AM DDIM, gan gynnwys deunyddiau dysgu cyfunol, adnoddau arweiniad i'r arholiad a threfnwyr gwybodaeth i gefnogi addysgu a dysgu.	https://adnoddau.cbac.co.uk/
Banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol	Manteisiwch ar ein banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol o ddigwyddiadau blaenorol ar ein gwefan ddiogel a deunyddiau wedi'u recordio ymlaen llaw ychwanegol ar y wefan gyhoeddus.	Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC.
Arholi gyda CBAC.	Rydym bob amser yn chwilio am arholwyr neu gymedrolwyr newydd i'w recriwtio. Gall y cyfleoedd hyn eich helpu i feithrin dealltwriaeth werthfawr o'r broses asesu, gwella eich set sgiliau, gwella eich dealltwriaeth o'ch pwnc a llywio eich addysgu.	Arholi gyda ni | CBAC

© WJEC CBAC Ltd.2026

Cynnwys

	Tudalen
Crynodeb gweithredol 5	
Uned 1	6
Uned 2	9
Uned 3	14
Uned 4	17
Eich cefnogi chi – manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol	21

© WJEC CBAC Ltd.2026

Crynodeb Gweithredol

Dangosodd Uned 1 dystiolaeth fod ymgeiswyr ar y cyfan yn dangos dealltwriaeth dda o gynnwys Uned 1, yn benodol cwestiynau AA1 sy'n seiliedig ar wybodaeth, ac enillodd llawer ohonynt farciau uchel. Fodd bynnag, collwyd marciau yn aml oherwydd nad oedd ymgeiswyr yn rhoi sylw llawn i ferfau gorchymyn fel “aseswch” ac “esboniwch” neu oherwydd nad oeddent wedi darllen cwestiynau’n ofalus. Gwelwyd perfformiad cryf wrth nodi camau bywyd, cerrig milltir datblygiadol, rolau proffesiynol, mathau o chwarae, gwydnwch, ac effaith tlodi gan ddefnyddio'r fframwaith PIES. Roedd gwallau cyffredin yn cynnwys cymysgu terminoleg, enwi gweithwyr proffesiynol yn hytrach na gwasanaethau, a darparu ymatebion disgrifiadol yn hytrach na gwerthusol. Er mwyn gwella, dylai ymgeiswyr ganolbwyntio ar ddeall berfau gorchymyn, defnyddio terminioleg gywir, a chymhwyso gwybodaeth yn fanwl gywir at y cwestiwn sy'n cael ei ofyn.

Roedd Asesiad Di-arholiad Uned 2 o safon da ar y cyfan ac yn dangos gwelliant ers y blynyddoedd blaenorol, a dangosodd canolfannau eu bod yn cymhwyso gofynion y fanyleb yn well. Lluniodd yr ymgeiswyr waith amrywiol, yn dangos ôl ymchwil da, yn enwedig o ran darpariaeth gwasanaethau, hybu iechyd, a thasgau gwerthuso. Roedd ymatebion cryfach yn cynnwys ymchwil manwl, cyfeiriadau cywir at ffynonellau, dadansoddi effeithiol, a dulliau ymgyrchu creadigol fel blogiau, fideos, a chyflwyniadau rhyngweithiol. Ymhilth problemau cyffredin roedd dewis yr un cam bywyd ar gyfer y ddwy dasg, manylion annigonol ar reoleiddio a gweithio amlasiantaethol, ffynonellau coll, a gwallau o ran cyfathrebu ysgrifenedig. Anogir canolfannau i sicrhau bod testunau yn cael eu dewis yn annibynnol, bod gweinyddiaeth ac anodi yn gywir, bod cymedroli mewnol yn gadarn, ac y cedwir at amodau a chyfyngiadau amser yr Asesiad Di-arholiad.

Dangosodd Uned 3 dystiolaeth fod ymgeiswyr yn perfformio'n dda ar y cyfan; dangoswyd gwybodaeth gadarn ar draws yr uned ac enillwyd marciau uchel mewn sawl cwestiwn. Roedd diogelu, deddfwriaeth yn ymwneud â'r Gymraeg, cydraddoldeb a chynhwysiant, iechyd cyfannol, a materion iechyd cyfoes wedi'u deall yn dda, yn enwedig pan oedd ymgeiswyr yn cymhwyso eu gwybodaeth gan ddefnyddio'r fframwaith PIES. Fodd bynnag, roedd diffyg dyfnder mewn rhai ymatebion, ac roedd ymgeiswyr yn aml yn disgrifio yn hytrach nag esbonio cysyniadau neu'n ailadrodd pwyntiau yn ddiangen. Roedd y rhai mwyaf llwyddiannus wedi nodi deddfwriaeth berthnasol a thueddiadau demograffig, er bod dealltwriaeth o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2017 a systemau iechyd cynaliadwy a gofal cymdeithasol yn llai cadarn. Byddai mwy o bwyslais ar ferfau gorchymyn, esboniadau manwl, a chymhwyso gwybodaeth yn gwella perfformiad ymhellach.

Roedd perfformiad ymgeiswyr Uned 4 yn well ar y cyfan, ac roeddent wedi llunio amrywiaeth ehangach o weithgareddau a gynlluniwyd yn dda a oedd yn briodol yn gyffredinol ar gyfer y dewisiadau gofal a'r grwpiau targed roeddent wedi'u dewis. Dangosodd ymatebion cryfach ddealltwriaeth dda o ofal cyfannol a gofal person-ganolog, gweithgareddau ystyrlon, deddfwriaeth Cymru, ac effaith tueddiadau, demograffeg, a mentrau'r llywodraeth ym maes darpariaeth gofal. Mae ansawdd yr ymchwil a'r cyfeiriadau at ffynonellau yn dal i wella, gan gefnogi dadansoddi a gwerthuso lefel uwch. Mae meysydd i'w gwella yn cynnwys darparu tystiolaeth gryfach o weithgareddau a gwblhawyd, ystyried amrywiaeth ehangach o ddulliau adborth, sicrhau bod gweithgareddau wedi'u teilwra at grwpiau targed unigol, a datblygu gwerthusiadau mwy dadansoddol. Dylai canolfannau hefyd sicrhau bod penderfyniadau asesu yn cael eu cefnogi'n llawn gan dystiolaeth glir.

© WJEC CBAC Ltd.2026

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

TGAU (Hen fanyleb)

Haf 2026

UNED 1: TWF, DATBLYGIAD A LLESIANT DYNOL

Trosolwg o'r Uned

Uned 1

Ar y cyfan, dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o'r testunau sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad. Dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o gwestiynau sy'n cael eu hasesu gan AA1 ac roeddent yn gallu ennill marciau da am y rhain. Collwyd y rhan fwyaf o'r marciau oherwydd nad oedd ymgeiswyr yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r ferf gorchymyn. Er enghraifft, yn C6 (c) dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o gyfranogiad gweithredol, fodd bynnag, ni wnaethant gymhwyso'r ferf gorchymyn yn gywir, sef '*aseswch'*. Roedd yn braf gweld bod ymgeiswyr bellach yn defnyddio'r derminoleg gywir wrth enwi rolau swyddi gweithwyr proffesiynol. Fodd bynnag, collodd rhai ymgeiswyr farciau am enwi gwasanaeth yn hytrach na'r gweithiwr proffesiynol perthnasol. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn deall na ddylid rhestru atebion ar ffurf pwyntiau bwled pan ddefnyddir y ferf gorchymyn '*esboniwch',* gan fod hyn yn arwain at golli marciau oherwydd diffyg manylion.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

C.1 (a)(b) Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu nodi mai cam bywyd Ella oedd plentyndod ac roeddent hefyd yn gallu nodi'r maes datblygiad cywir ar gyfer pob carreg filltir, gan lwyddo i ennill marciau llawn am y cwestiwn hwn.

C.2 (a) (i) Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda ac enillodd nifer o ymgeiswyr farciau llawn. Y camgymeriad mwyaf cyffredin i rai ymgeiswyr oedd cymysgu rhwng 'ymsymudol' a 'lleferydd ac iaith'.

(ii) Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu nodi gweithiwr proffesiynol sy'n debygol o ddefnyddio'r Cofnod o Sgiliau Tyfu.

(b) Er bod llawer o ymgeiswyr wedi dangos rhywfaint o ddealltwriaeth o'r Cofnod o Sgiliau Tyfu, ni wnaeth llawer ohonynt ateb ail ran y cwestiwn sef disgrifio pwrpas y Cofnod wrth asesu datblygiad plentyn. Mae angen atgoffa ymgeiswyr i ddarllen y cwestiwn yn llawn er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ei ateb ac ennill marciau yn y bandiau uwch.

(c) (i)(ii) Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu nodi gwasanaethau fyddai'n gallu cefnogi plentyn sydd ddim yn cyrraedd ei gerrig milltir datblygiadol. Collodd rhai ymgeiswyr farciau am enwi gweithiwr proffesiynol yn hytrach na gwasanaeth. Derbyniwyd 'ymwelydd iechyd' ar gyfer y cwestiwn hwn, fodd bynnag, rydym yn annog ymgeiswyr i ddefnyddio'r term 'gwasanaethau ymwelydd iechyd' gan mai dyma'r derminoleg gywir.

(ch) Yn y cwestiwn hwn, gofynnwyd i ymgeiswyr esbonio sut byddai gofal a chymorth gan weithwyr iechyd proffesiynol neu wasanaethau yn gallu helpu plentyn i gyrraedd ei gerrig milltir.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu ymateb yn dda i'r cwestiwn hwn; fodd bynnag, roedd rhai wedi ailadrodd eu hateb o 2 (b) gan arwain at golli marciau. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn darllen y cwestiynau yn ofalus ac yn ymateb yn briodol.

C.3 Ymatebodd llawer o ymgeiswyr yn dda i'r cwestiwn hwn ac roeddent yn gallu cysylltu'r disgrifiad o'r chwarae â'r math o chwarae yn gywir. Y camgymeriad mwyaf cyffredin oedd ymgeiswyr yn cymysgu rhwng chwarae cysylltiol a chwarae cydweithredol.

C.4 Perfformiodd llawer o ymgeiswyr yn dda ar y cwestiwn hwn gan ddangos dealltwriaeth dda. Roedd yn braf gweld bod ymgeiswyr wedi defnyddio corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol (PIES) i strwythuro eu hymatebion. Roedd hyn yn eu galluogi i ystyried pob maes yn ymwneud ag iechyd a llesiant Jack.

C.5 (a) Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu disgrifio effaith profedigaeth ar ddatblygiad emosiynol a chymdeithasol Jessica. Roedd rhai ymgeiswyr hefyd wedi rhestru effeithiau corfforol a deallusol heb eu cysylltu â'i datblygiad cymdeithasol ac emosiynol, gan arwain at golli marciau. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn darllen y cwestiwn yn ofalus ac yn ymateb yn briodol.

(b) Dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth dda mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi rhoi diffiniad o 'bod yn wydn' ac yna wedi cymhwyso'r wybodaeth hon i esbonio sut byddai'n gallai helpu Jessica i ymdopi â'r newidiadau yn ei hamgylchiadau.

C.6 (a) (i) Perfformiodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn dda yn y cwestiwn hwn ac roeddent yn gallu nodi mai cam bywyd Arwel oedd oedolaeth hŷn.

(ii) Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu ennill marciau llawn am y cwestiwn hwn, ac roedd y rhai a gollodd marciau wedi gwneud hynny oherwydd eu bod wedi enwi gwasanaeth yn hytrach na gweithiwr proffesiynol.

(b) Er bod llawer o ymgeiswyr yn gallu dangos dealltwriaeth o effeithiau byw mewn ardal wledig ar Arwel, roeddent yn cael trafferth esbonio sut mae hyn yn effeithio ar y math o ofal byddai Arwel yn gallu ei gael. Mae angen i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn darllen y cwestiwn yn llawn er mwyn ennill marciau yn y bandiau uchaf.

(c) Roedd yn braf gweld bod ymgeiswyr yn deall ystyr Cyfranogiad Gweithredol, fodd bynnag, collodd llawer ohonynt farciau oherwydd nad oeddent yn deall y ferf gorchymyn. Roedd y cwestiwn hwn yn ymwneud â meini prawf AA3 ac roedd yn gofyn i ymgeiswyr *asesu*'r manteision. Collodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr farciau oherwydd eu bod wedi diffinio ystyr cyfranogiad gweithredol, yn hytrach nag asesu'r manteision.

C.7 (a) Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn, cynigiodd rhai ymgeiswyr ymatebion cywir, cynigiodd rhai ymatebion anghywir, ac ni wnaeth eraill gynnig ymateb o gwbl.

(b) Llwyddodd rhai ymgeiswyr i nodi canllaw neu fenter gan y llywodraeth yn eu hymateb, er nad oeddent wedi nodi hyn yn 7 (a). Rhoddwyd marciau i'r ymgeiswyr hyn am eu hymateb.

© WJEC CBAC Ltd.2026

C.8 (a) Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn. Dangosodd rhai ymgeiswyr ddealltwriaeth glir o'r fenter Dechrau'n Deg, fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir am lawer ohonynt. Roedd yr ymgeiswyr hynny a atebodd yn dda yn gallu nodi bod menter Dechrau'n Deg yn cynnig gofal plant am ddim, ymweliadau iechyd ychwanegol a rhaglenni rhianta, gan esbonio sut mae hyn yn gwella iechyd a llesiant teuluoedd. Esboniodd llawer o ymatebion sut mae addysg yn cefnogi iechyd a llesiant plant ond ni wnaethant ddangos cysylltiadau â menter Dechrau'n Deg; felly, gwnaethant golli marciau.

(b) Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda, a dangosodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr ddealltwriaeth o effaith byw mewn tlodi. Roedd yn braf gweld bod y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu ennill rhywfaint o farciau am y cwestiwn hwn, ac enillodd llawer ohonynt farciau yn y bandiau uchaf. Defnyddiodd ymgeiswyr PIES i strwythuro eu hatebion gan eu galluogi i ddangos eu gwybodaeth lawn a'u dealltwriaeth o sut mae tlodi yn gallu effeithio ar bob maes yn ymwneud ag iechyd a llesiant.

© WJEC CBAC Ltd.2026

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

TGAU (Hen fanyleb)

Haf 2026

UNED 2: HYBU A CHYNNAL IECHYD A LLESIANT

Trosolwg o'r Uned

Dyma oedd yr ail flwyddyn i'r Asesiad Di-arholiad gael ei uwchlwytho i IAMIS. Roedd y gwaith a gyflwynwyd o safon dda, a gwelwyd gwelliannau pellach ers y llynedd. Mae canolfannau wedi ystyried pwyntiau allweddol adroddiad y prif gymedrolwr, a gwelwyd tystiolaeth o'r fanyleb yn cael ei chymhwyso'n well.

I sicrhau bod y nifer a'r mathau cywir o ffeiliau yn cael eu huwchlwytho, defnyddiwch yr arweiniad i uwchlwytho ar IAMIS. Dylid coladu'r tasgau gyda'r daflen cofnod asesu, ac un neu ddwy ffeil i bob tasg gydag enw'r ffeil a manylion yr ymgeisydd wedi'u nodi'n glir.

Dangosodd y rhan fwyaf o ganolfannau ddealltwriaeth ardderchog ac ymdriniaeth amrywiol wrth gyflwyno tasg un a dau, gan amlygu cryfderau'r ymgeisydd ac amrywiaeth o ddiddordebau. Mae rhai ymgeiswyr yn dal i ddewis yr un cam bywyd ar gyfer y ddwy dasg. Fe'u cynghorir i ddewis camau bywyd gwahanol ar gyfer pob tasg er mwyn cael gafael ar amrywiaeth eang o wybodaeth am y pwnc. Roedd defnyddio prosesydd geiriau i gwblhau tasgau yn caniatáu i'r ymgeiswyr gynnwys siartiau, graffiau a delweddau yn ogystal â chreu deunyddiau a gweithgareddau hybu mwy cynhwysfawr. Nid yw gwybodaeth ffynhonnell yn tueddu i gael ei chynnwys ar y gwaith sy'n cael ei ysgrifennu â llaw, gan atal dysgwyr rhag cyrraedd y bandiau marciau uwch. Eleni, dangosodd mwy o ymgeiswyr amrywiaeth o ymgyrchoedd hybu a gafodd eu huwchlwytho ar gyfer tasg dau, ac roeddent yn cynnwys blogiau, fideos a chyflwyniadau PowerPoint rhyngweithiol.

Roedd y defnydd o gofnodion arsylwi neu sylwadau'r athro a oedd wedi'u cynnwys yng ngwerthusiad tasg 2, adran (d) o gymorth yn ystod y broses gymedroli. Darparodd y rhan fwyaf o ganolfannau anodiadau ar waith ymgeiswyr a/neu defnyddiwyd cofnodion asesu i ddangos lle rhoddwyd marciau. Anogir yr arfer hwn gan ei fod yn helpu i hybu cysondeb o fewn canolfannau unigol a hefyd ar draws canolfannau gwahanol.

Gweinyddu

Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd lofnodi ei waith, yn ogystal ag aseswr y ganolfan. Rhaid cwblhau'r taflenni cofnod asesu yn llawn, gan gynnwys y marciau ar gyfer pob adran a'r cyfansymiau. Dylid croeswirio popeth cyn uwchlwytho'r cyfan i IAMIS.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Tasg 1: Darparu gwasanaethau

(a) Ymchwilio i'r gwasanaethau a ddarperir yn lleol ac yn genedlaethol i ddiwallu anghenion plant, pobl ifanc neu oedolion

Lluniodd ymgeiswyr waith gan ddefnyddio amrywiaeth o arddulliau cyflwyno priodol a oedd yn arddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r dasg. Dangosodd ymgeiswyr y bandiau uwch amrywiaeth o anghenion penodol ar draws pob math o grwpiau targed, gan gynnwys llawer iawn o fanylion ac ymgymryd ag ymchwil helaeth i ymchwilio i ddarpariaethau gwasanaethau. Mae'r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn nodi manylion y ffynhonnell sef un o ofynion yr adran hon, gydag amrediad amlwg iawn i gyrraedd y bandiau marciau uwch. Er bod gwelliant wedi bod gan y rhan fwyaf o ymgeiswyr o ran cynnwys manylion am y corff rheoleiddio, mae diffyg dyfnder mewn rhai ymatebion o hyd i gyrraedd y bandiau marciau uwch, e.e. A ydynt yn cadw cofrestriadau gweithwyr? A ydynt yn gyfrifol am arolygiadau? Beth sy'n digwydd os nad yw gwasanaeth yn bodloni'r safonau pan gaiff ei reoleiddio? Darparu dealltwriaeth o sut mae'r rheoleiddio'n digwydd.

(b) Ymchwilio i rolau swyddi dau weithiwr proffesiynol allweddol

Ar y cyfan, roedd y gwaith a gyflwynwyd yn yr ardan hon yn dangos dealltwriaeth glir o'r dasg, ac ymatebodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn briodol i'r gofynion. Eleni, gwelwyd tystiolaeth gryfach bod ymgeiswyr yn deall y sgiliau a'r nodweddion mae eu hangen ar gyfer y rolau swyddi a ddewiswyd. Fodd bynnag, roedd nifer bach o ymgeiswyr yn dal i ddewis rolau swyddi nad oeddent wedi'u cysylltu'n agos â'r gwasanaethau neu'r cam bywyd roeddent wedi'u nodi.

Mae ymgeiswyr wedi dangos dealltwriaeth gadarn o weithio amlasiantaethol, gyda llai ohonynt yn dibynnu ar ddisgrifiadau generig a mwy ohonynt yn darparu esboniadau â ffocws o gyfraniad gweithio ar y cyd i gefnogi eu grŵp targed. Er gwaethaf y gwelliant hwn, mae rhai canolfannau, fel yn y blynyddoedd blaenorol, yn dal i roi marciau yn y bandiau uchaf er nad oes fawr ddim, neu ddim tystiolaeth yn ymwneud â gweithio amlasiantaethol. I gyrraedd y bandiau marciau uchaf, rhaid i ymgeiswyr roi esboniad trylwyr a pherthnasol o sut mae'r ddau weithiwr proffesiynol allweddol yn cyfrannu at weithio amlasiantaethol effeithiol.

Mae ymatebion yn ymwneud â dilyniant gyrfa ar gyfer dau weithiwr proffesiynol allweddol wedi gwella hefyd. Dangosodd llawer o ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o gyfleoedd dilyniant, a chynigiodd rhai ohonynt ymatebion ardderchog a oedd yn nodi llwybrau dilyniant penodol yn y maes gwaith perthnasol.

(c) Dadansoddi'r dasg

Mae'r gwaith a gafodd ei gynhyrchu yn yr adran hon yn dal i fod o safon uchel, a dangosodd y rhan fwyaf o ganolfannau ddadansoddiad ardderchog o argaeledd gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol allweddol gan werthuso pa mor effeithiol mae'r rhain yn bodloni anghenion y grŵp targed. Fodd bynnag, mae rhai canolfannau yn dal i roi marciau yn y band uchaf i ymgeiswyr er bod yr adran hon yn asesu ansawdd cyfathrebu ysgrifenedig. I gyrraedd y bandiau uchaf, dylai ymgeiswyr gyflwyno gwaith sy'n gywir a heb unrhyw wallau sillafu, atalnodi a gramadeg.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Mae tystiolaeth hefyd bod rhai ymgeiswyr wedi cael eu harwain drwy'r defnydd o gwestiynau promptio. Dylai canolfannau gofio bob amser am amodau'r Asesiad Di-arholiad a sicrhau bod y cymorth sy'n cael ei ddarparu yn cyd-fynd â'r gofynion a ganiateir. At hyn, mae gwaith ymgeiswyr yn aml yn cael ei gyflwyno gyda fawr ddim anodi, neu ddim anodi o gwbl i dynnu sylw at broblemau o ran sillafu, gramadeg neu fynegiant ysgrifenedig. Gall y diffyg sylwebaeth hyn ei gwneud yn fwy anodd i aseswyr benderfynu'n gywir ar y band marciau mwyaf priodol.

Tasg 2: Hybu iechyd

(a) Dewis testun a grŵp targed

Yn dilyn ymlaen o adroddiad y llynedd, cafwyd ymatebion o safon da iawn ar y cyfan i'r adran hon a rhoddodd yr ymgeiswyr esboniadau manwl ac wedi'u rhesymu'n dda dros ddewis eu grŵp targed a'r testun. Fodd bynnag, dewisodd rhai ymgeiswyr yr un cam bywyd ar gyfer Tasg 1 a Tasg 2. Cynghorir canolfannau i annog ymgeiswyr i ddewis camau bywyd gwahanol ar gyfer pob tasg, gan fod hyn yn eu galluogi i ddangos amrywiaeth ehangach o wybodaeth a dealltwriaeth am y pwnc.

Mae'n bwysig nodi hefyd y dylai ymgeiswyr ddewis eu testun a'u grŵp targed yn annibynnol. Gwelwyd bod nifer bach o ganolfannau wedi cyfarwyddo'r dewis o destun a grŵp ar gyfer dosbarthiadau cyfan, ac nid yw hyn yn cael ei ganiatáu o dan yr amodau asesu.

Roedd yn galonogol gweld amrywiaeth ehangach o destunau yn cael eu harchwilio eleni, yn y canolfannau unigol ac ar draws y garfan gyfan. Roedd ymgeiswyr a oedd wedi cynnwys data ystadegol perthnasol i ddangos arwyddocâd y mater a ddewiswyd ganddynt a'i berthnasedd i'r grŵp targed yn dangos dealltwriaeth gadarn o bwrpas y dasg. Roedd defnydd effeithiol o ddelweddau, siartiau a graffiau hefyd yn cefnogi ymatebion lefel uwch, gan helpu ymgeiswyr i gyfiawnhau eu dewis o destun a darparu tystiolaeth glir ar gyfer eu penderfyniadau.

Yn gyffredinol, roedd y cyfiawnhad a roddwyd yn dda neu'n dda iawn, ac roedd tystiolaeth glir bod y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi ystyried yn ofalus a myfyrio ar y testun a'r grŵp targed a ddewiswyd ganddynt.

(b) Ymchwilio i'r testun a ddewiswyd gan ddefnyddio amrediad o adnoddau

Unwaith yn rhagor, roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi ymateb yn dda i'r adran hon, ac roedd yr ymatebion yn dangos dealltwriaeth gadarn o ganllawiau a mentrau llywodraeth perthnasol. Darparodd y rhan fwyaf o ganolfannau dystiolaeth glir o ymchwil helaeth a phwrpasol, a oedd wedi cefnogi'r ymgeiswyr i ddatblygu ymatebion gwybodus a pherthnasol.

Cafwyd gwelliant amlwg eleni yn nisgrifiadau'r ymgeiswyr o'r dylanwadau cadarnhaol a negyddol a oedd yn effeithio ar iechyd a llesiant y grŵp targed a ddewiswyd ganddynt. Er bod nifer bach o ymgeiswyr yn dal i roi enghreifftiau generig nad oeddynt yn berthnasol yn uniongyrchol i'r testun a ddewiswyd ganddynt, roedd y rhan fwyaf yn gallu gwneud cysylltiadau priodol rhwng y dylanwadau a nodwyd ac anghenion y grŵp targed.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Dylai canolfannau sicrhau bod pob adran o'r Asesiad Di-arholiad yn cael ei chwblhau gyda phwrpas clir a'i bod yn cyfrannu mewn ffordd ystyrlon at ddatblygiad y deunydd hybu terfynol. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn deall gwerth ymchwilio i'r dylanwadau cadarnhaol a negyddol sy'n gysylltiedig â'r testun a'r grŵp targed a ddewiswyd ganddynt, oherwydd dylai'r ymchwil hwn lywio eu hystyriaeth o'r dulliau ymgyrchu yn nhasgau (c) a (ch) yn uniongyrchol. Roedd ymatebion cryfach yn dangos cysylltiadau clir rhwng yr ymchwil a wnaed a'u penderfyniadau yn nes ymlaen yn y dasg.

(c) Asesu deunyddiau hybu iechyd sy'n bodoli eisoes

Ar y cyfan, roedd yr ymgeiswyr wedi tynnu ar amrywiaeth eang o ffynonellau, gan gryfhau ansawdd eu hymchwil a'u gwerthusiad. Roedd y defnydd effeithiol o ffynonellau amrywiol a pherthnasol yn helpu llawer o ymgeiswyr i ddarparu ymatebion manwl a oedd wedi'u cefnogi'n dda, a chyrraedd y bandiau marciau uchaf.

Perfformiodd ymgeiswyr yn dda yn yr adran hon, a gwelwyd cynnydd ym maint yr ymchwil perthnasol i ddeunyddiau hybu iechyd sy'n bodoli eisoes o'i gymharu â'r gyfres flaenorol. Dewisodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr ddeunyddiau a oedd yn briodol i'r testun a'r grŵp targed a ddewiswyd ganddynt, gan ddarparu sylfaen ddefnyddiol ar gyfer y penderfyniadau a'r ystyriaethau yn nes ymlaen yn adran (ch).

Fodd bynnag, yn achos rhai ymgeiswyr, nid oedd digon o ddyfnder yn eu hesboniad o nodau a nodweddion y deunyddiau hybu i gyrraedd y bandiau marciau uwch. I ennill marciau yn y bandiau marciau uwch, rhaid i ymgeiswyr fynd i'r afael â phob un o'r meini prawf asesu a dangos barn wedi'i rhesymu'n dda ynglŷn ag effeithiolrwydd ac addasrwydd y deunyddiau maent wedi'u dewis.

Dylai ymgeiswyr sicrhau bod eu dadansoddiad yn ystyried y cwestiynau allweddol canlynol: Beth yw nod y deunyddiau hybu? Pa mor addas yw'r deunyddiau hybu i'r grŵp targed a fwriadwyd? Pa mor hygyrch yw'r deunyddiau hybu i'r grŵp hwnnw a pha mor hawdd yw hi i'r grŵp gael gafael arnynt? Pa ffynonellau cymorth sy'n cael eu hamlygu neu'u darparu? Roedd yr ymatebion cryfaf yn mynd i'r afael â phob un o'r meysydd hyn yn fanwl, gan roi barn gytbwys wedi'i chefnogi gyda thystiolaeth berthnasol.

Ar y cyfan, dewisodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ddeunyddiau hybu priodol a oedd wedi'u cysylltu'n glir â'r testun a'r grŵp targed a ddewiswyd ganddynt. Roedd hyn yn eu galluogi i wneud cymariaethau gwybodus ac yn cefnogi datblygiad cynigion ymgyrch fwy effeithiol yng nghamau olaf yr Asesiad Di-arholiad.

(D) Cynllunio a chreu ymgyrch neu weithgaredd hybu iechyd

Roedd yn galonogol gweld ymgeiswyr yn defnyddio amrywiaeth ehangach o ddulliau ymgyrchu eleni, gan gynnwys blogiau a fideos. Fodd bynnag, atgoffir canolfannau nad yw pob fformat ffeil yn addas i'r system gyflwyno, ac mae'n bwysig gwirio bod modd cyrchu a gweld y ffeiliau yn gywir cyn eu huwchlwytho.

Dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth gryfach o lawer o'r dulliau a'r technegau sy'n ofynnol i greu ymgyrch effeithiol. Roedd gwelliant amlwg yn ansawdd y cyfiawnhad a ddarparwyd, ac roedd llawer o ymgeiswyr wedi cynnig rhesymau manwl i esbonio pam byddai dulliau penodol yn addas neu ddim yn addas ar gyfer y grŵp targed a thestun a ddewiswyd ganddynt. Er mai cyflwyniadau PowerPoint a thaflenni yw'r dewisiadau mwyaf poblogaidd o hyd, gwelwyd gwelliant amlwg yn ansawdd, manylder a safon cyffredinol y deunyddiau hybu hyn. Roedd gemau bwrdd yn boblogaidd o hyd ac yn aml yn ddull ymgysylltu llwyddiannus.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Roedd y defnydd o dystiolaeth ffotograffig a datganiadau tystion yn arbennig o effeithiol eleni, gan gefnogi'r broses gymedroli a helpu i sicrhau bod marciau yn cael eu dyrannu'n gywir ac yn gyson. Cafwyd ystyriaeth gryfach hefyd o ddulliau adborth, ac roedd llawer o ymgeiswyr wedi esbonio'n glir sut byddai adborth yn cael ei gasglu a pham roedd y dulliau a ddewiswyd ganddynt yn briodol.

Ar y cyfan, cafwyd tystiolaeth dda o gynllunio ar draws y canolfannau. Roedd y defnydd o dablau cynllunio yn arbennig o effeithiol wrth gefnogi ymgeiswyr o bob lefel gallu, gan eu helpu i ystyried costau, yr adnoddau roedd eu hangen ac amserlenni realistig ar gyfer cwblhau camau gwahanol y dasg. Mae'r dull strwythuredig hwn o gynllunio wedi cyfrannu'n gadarnhaol at ansawdd a threfniant cyffredinol gwaith ymgeiswyr.

(E) Dadansoddi a gwerthuso'r dasg

Mae ymatebion i'r dasg hon yn dal i wella bob blwyddyn, a dangosodd llawer o ymgeiswyr safon da o ddadansoddi wrth adolygu'r adborth roeddent wedi'i dderbyn. Cafodd yr ystyriaeth fwy meddylgar a manwl hon o adborth effaith gadarnhaol ar ansawdd cyffredinol gwerthusiadau, a dangosodd yr ymgeiswyr eu bod yn gallu myfyrio'n well ar effeithiolrwydd eu hymgyrchoedd hybu iechyd a nodi meysydd i'w gwella.

Roedd yn braf gweld amrywiaeth o ddulliau adborth yn cael eu defnyddio i gasglu tystiolaeth, gan alluogi ymgeiswyr i gasglu amrywiaeth o safbwyntiau a chefnogi gwerthusiadau mwy gwybodus. Roedd y defnydd o ddulliau gwahanol o gasglu adborth yn aml yn cryfhau casgliadau ymgeiswyr ac yn darparu sylfaen fwy clir i werthuso llwyddiant eu deunyddiau hybu.

Fel y nodwyd yn adran (c) Tasg 1, mae ymgeiswyr yn dal i gael marciau yn Band 4 ar rai achlysuron, er bod gwallau sillafu, atalnodi a gramadeg i'w gweld. O ystyried bod ansawdd cyfathrebu ysgrifenedig yn cael ei asesu, dylai'r ymatebion sy'n cael eu gosod yn y band marciau uwch fod yn gywir ac ni ddylent gynnwys fawr ddim gwallau o'r fath.

Mae rhai canolfannau yn dal i roi cwestiynau strwythuredig i'r ymgeiswyr i lywio eu gwerthusiadau. Er y gall hyn fod yn strategaeth effeithiol i gefnogi ymgeiswyr is eu cyrhaeddiad a sicrhau bod yr holl amcanion asesu yn cael sylw, anogir canolfannau i ddefnyddio'r dull hwn fel mesur cymorth gwahaniaethol yn hytrach na dull safonol ar gyfer y garfan gyfan. Dylai ymgeiswyr sy'n anelu am y bandiau marciau uwch gael cyfleoedd i ddangos sgiliau gwerthuso annibynnol a llunio ymatebion mwy unigol.

Sylwadau am ddulliau marcio mewnol

Mae angen parhau i anodi gwaith a/neu y cofnod asesu i roi sylwadau am ble rhoddwyd marciau i ymgeiswyr, gan fod hyn yn cefnogi'r broses gymedroli.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Mae traws-gymedroli o fewn canolfannau yn gam hanfodol i sicrhau cywirdeb marcio a dogfennaeth gysylltiedig, fel cadarnhau bod y marciau wedi'u hadio'n gywir a bod y llofnodion sydd eu hangen wedi'u nodi. Mae'r broses hon yn helpu i leihau gwallau clercyddol wrth fewnbynnu data i IAMIS.

Dylid sicrhau bod ffynonellau'n cael eu cynnwys ym mhob rhan o'r dasg lle mae hynny'n ofynnol.

Mae angen i ymgeiswyr sicrhau eu bod nhw'n cwblhau'r gwaith o fewn y 15 awr a ganiateir.

Mae defnyddio datganiadau tystion wedi bod o gymorth mawr i'r ymgeiswyr mewn rhai tasgau hyrwyddo, gan alluogi i farciau gael eu rhoi'n gywir, gan fod tystiolaeth ategol ar gael.

© WJEC CBAC Ltd.2026

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

TGAU (Hen fanyleb)

Haf 2026

UNED 3: IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT YN YR 21AIN GANRIF

Trosolwg o'r Uned

Yn gyffredinol, roedd yr ymgeiswyr wedi ymgysylltu'n dda â'r asesiad, a llwyddodd llawer ohonynt i ennill marciau uchel ar draws y cwestiynau. Dangosodd ymatebion i'r cwestiwn diogelu ddealltwriaeth gadarn, er bod angen i ymgeiswyr gysylltu eu hesboniadau'n fwy uniongyrchol â'u pwysigrwydd ar gyfer gofal a llesiant yr unigolyn. Roedd y rhan fwyaf yn gallu nodi deddfwriaeth berthnasol, ond dylai carfanau'r dyfodol ddefnyddio teitlau llawn gyda dyddiadau cywir. Dangosodd ymgeiswyr wybodaeth gadarn o ddeddfwriaeth a pholisïau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg, er bod llawer wedi eu disgrifio yn hytrach nag esbonio'n llawn sut maent yn cefnogi iaith a diwylliant. Roedd cydraddodeb a chynhwysiant mewn ysgolion wedi'i ddeall yn dda ar y cyfan, ond roedd rhywfaint o ailadrodd yn cyfyngu ar farciau yn y bandiau marciau uwch. Roedd yr atebion ar iechyd cyfannol yn aml yn feddylgar, yn enwedig wrth gymhwyso PIES. Cafodd materion cyfoes eu nodi'n gywir, gordewdra oedd yr un mwyaf cyffredin, ac esboniodd llawer o ymgeiswyr yr effeithiau ar iechyd a llesiant mewn ffordd effeithiol. Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiynau diweddarach ar newid demograffeg a darpariaeth gwasanaethau, ac roedd dealltwriaeth o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2017 yn amrywio'n sylweddol.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

C.1 Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu dangos dealltwriaeth dda o'r cwestiwn hwn drwy roi tic yn y blychau cywir.

C.2 (a)(b) Roedd y cwestiynau hyn yn ddealladwy i'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ac roeddent yn gallu ennill marciau llawn**.**

C.3 (a) Dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth gadarn o ddiogelu ac roeddent yn gallu rhoi esboniad clir o'i bwysigrwydd. I gryfhau eu hymatebion ymhellach, byddai ymgeiswyr wedi gallu cysylltu eu gwybodaeth yn fwy uniongyrchol â'r cwestiwn trwy esbonio pam mae diogelu yn hanfodol i ofal a llesiant pob unigolyn; byddai hyn wedi eu galluogi i ennill marciau yn y bandiau uwch.

(b) Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu nodi'n gywir dau ddarn o ddeddfwriaeth berthnasol. Ar gyfer y cwestiwn hwn, rhoddwyd marciau hyd yn oed pan gafodd y ddeddfwriaeth ei henwi heb y dyddiad perthnasol. Fodd bynnag, ar gyfer carfanau'r dyfodol byddem yn disgwyl i ymgeiswyr ddefnyddio teitl llawn y ddeddwriaeth, gan gynnwys y dyddiad cywir.

(c) Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu ennill marciau llawn am y cwestiwn hwn a oedd yn dangos dealltwriaeth glir o'r hyn sy'n fater diogelu neu beidio.

© WJEC CBAC Ltd.2026

C.4 (a) (ii) Roedd y cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar yr iaith Gymraeg, ac roedd yn amlwg bod gan y rhan fwyaf o ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r maes hwn. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn gallu nodi'n gywir darn cyfredol o ddeddfwriaeth neu bolisi cenedlaethol sy'n cefnogi'r iaith Gymraeg. Ar y cyfan, dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth gadarn o sut roedd y ddeddfwriaeth neu'r polisi a ddewiswyd ganddynt yn cydnabod, yn hybu, ac yn cefnogi'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. I gyrraedd y marciau uchaf, roedd angen i ymgeiswyr ymateb yn fwy llawn i'r ferf gorchymyn **'Esboniwch'**. Er bod llawer o atebion wedi cynnwys gwybodaeth berthnasol, roeddent yn aml yn disgrifio yn hytrach nag yn esbonio sut mae'r ddeddfwriaeth neu'r polisi yn cefnogi'r iaith Gymraeg yn ymarferol.

C.5 (a) Roedd y cwestiwn hwn yn asesu dealltwriaeth ymgeiswyr o sut gellir hybu cydraddoldeb a chynhwysiant mewn ysgolion ar gyfer person ifanc ag anabledd corfforol. Roedd ymatebion y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn dangos bod ganddynt afael cadarn ar y testun ac roeddent yn gallu amlinellu arferion cynhwysol priodol. Fodd bynnag, collodd rhai ymgeiswyr farciau oherwydd ailadrodd diangen, gan gyfyngu ar ddyfnder eu hesboniadau.

(b) Ar y cyfan, dangosodd ymatebion i'r cwestiwn hwn ddealltwriaeth gadarn o **iechyd cyfannol**. Dechreuodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr drwy roi diffiniad neu drosolwg clir o'r hyn mae dull cyfannol yn ei olygu, ac yna roedd y rhan fwyaf ohonynt yn gallu cymhwyso hyn yn effeithiol at sefyllfa Sara. Roedd rhai ohonynt yn gallu llunio atebion a oedd yn esbonio sut byddai ystyried ei hanghenion corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol (PIES) yn gallu ei chefnogi wrth leihau'r risg o gorbryder ac iselder, gan arwain at atebion meddylgar a oedd wedi'u datblygu'n dda.

(c) (i)(ii) Roedd ymgeiswyr yn gallu nodi mater cyfoes a dewisodd y rhan fwyaf ohonynt gordewdra. Aeth y rhai a oedd yn gallu nodi mater cyfoes yn glir ymlaen i lunio ymateb da ar gyfer ail ran y cwestiwn, sef esbonio'r effaith ar iechyd a llesiant. Defnyddiodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr **PIES** i strwythuro eu hatebion, gan eu galluogi i fynd i'r afael â phob agwedd ar iechyd a llesiant ac ennill marciau yn y bandiau uchaf.

C.6 (a) (i)(ii) Roedd bron iawn pob ymgeisydd yn gallu nodi'r ateb cywir ar gyfer y cwestiynau hyn.

(b) Roedd bron iawn pob ymgeisydd yn gallu disgrifio'r patrymau o newid a ddangoswyd yn y siart. Roedd angen i rai ymgeiswyr gynnwys rhagor o fanylion yn eu hymateb i ennill marciau llawn.

(c) Cafwyd ymatebion cymysg i'r cwestiwn hwn, ac roedd rhai ymgeiswyr yn gallu ateb ac eraill yn ailadrodd eu hymateb i'r cwestiwn blaenorol (8b). Roedd y rhai a oedd yn gallu ateb hefyd yn dangos dealltwriaeth dda o'r rhesymau dros y nifer cynyddol o bobl hŷn yng Nghymru.

(ch) Unwaith yn rhagor, ymatebodd rhai ymgeiswyr yn dda ac roeddent yn gallu trafod sut byddai patrymau neu dueddiadau'r boblogaeth sy'n heneiddio yn gallu dylanwadu ar ddarpariaeth gwasanaethau yng Nghymru. Ar y llaw arall, roedd yn amlwg nad oedd gan rai ohonynt y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i gyrraedd y marciau yn y bandiau marciau uchaf.

© WJEC CBAC Ltd.2026

C.7 Roedd y cwestiwn hwn yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2017 yn ceisio cefnogi unigolion. Roedd gan rai ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth glir o hyn ac roeddent yn gallu cynnig esboniad da a oedd yn eu galluogi i ennill rhai marciau. Ar y llaw arall, cafwyd ymatebion cyfyngedig gan ymgeiswyr eraill gan ddangos yn glir bod fawr ddim gwybodaeth a dealltwriaeth o'r testun.

C.8 (a)(b) Dangosodd nifer bach o ymgeiswyr ddealltwriaeth gadarn o bwrpas cynnal system iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant cynaliadwy yng Nghymru, yn ogystal â sut mae deddfwriaeth a mentrau cyfredol yn cefnogi hyn. Fodd bynnag, dangosodd y rhan fwyaf ohonynt wybodaeth gyfyngedig o'r testun, gan arwain at golli marciau amlwg. Ar y cyfan, roedd ymgeiswyr yr oedd ganddynt rhywfaint o ddealltwriaeth o'r cwestiwn yn gallu ymateb yn briodol i **8(a)**. Mewn cyferbyniad, roedd y rhan fwyaf yn cael trafferth darparu'r lefel o fanylder a dyfnder angenrheidiol i gyrraedd y bandiau marciau uwch yn **8(b)**.

© WJEC CBAC Ltd.2026

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

TGAU (Hen fanyleb)

Haf 2026

UNED 4: HYBU A CHEFNOGI IECHYD A LLESIANT ER MWYN SICRHAU CANLYNIADAU CADARNHAOL

Trosolwg o'r Uned

Dangosodd ymgeiswyr amrywiaeth ehangach o weithgareddau eleni, ac roedd llawer o'r rhain wedi cael eu cynllunio'n ofalus ac yn addas iawn ar gyfer y lleoliadau gofal a ddewiswyd ganddynt. Roedd addasrwydd a pherthnasedd y gweithgareddau hyn yn adlewyrchu dealltwriaeth fwy cadarn o anghenion yr unigolion dan sylw a chanlyniadau a fwriadwyd y dasg. Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr heb ddarparu tystiolaeth ddigonol o'r gweithgareddau a gafodd eu cynnal, fel ffotograffau neu ffurflenni adborth a gwblhawyd. Mae'r dystiolaeth ategol hon yn werthfawr wrth helpu i ddangos sut cafodd gweithgareddau eu rhoi ar waith a'u heffeithiolrwydd ac mae'n gyfraniad defnyddiol i'r broses gymedroli. Anogir canolfannau felly i sicrhau bod tystiolaeth briodol yn cael ei chynnwys lle bo'n bosibl i gefnogi'r penderfyniadau asesu.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Tasg: Gweithgaredd i fodloni angen

(a) Ymchwilio i'r ffordd mae gwahanol fathau o ofal yn bodloni anghenion penodol grŵp targed a ddewiswyd

Rydym wedi gweld gwelliant cyson mewn perfformiad dros y blynyddoedd diwethaf wrth i ymgeiswyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r dasg, gan lunio ymchwiliadau manwl i'r grwpiau targed a ddewiswyd ganddynt. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu esbonio'n glir sut gellir darparu gofal cyfannol, gan roi ystyriaeth wedi'i datblygu'n dda o anghenion corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol yr unigolion roeddent wedi'u dewis.

Fel y nodwyd yn ystod y blynyddoedd blaenorol, roedd gwelliant pellach hefyd yn nealltwriaeth ymgeiswyr o ofal person-ganolog. Fodd bynnag, i gyrraedd y bandiau marciau uchaf, rhaid i ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth fanwl a soffistigedig o ddulliau person-ganolog, gan ddangos yn glir sut gellir cymhwyso'r egwyddorion hyn i fodloni anghenion penodol a dewisiadau unigolion. Er bod llawer o ymgeiswyr yn datblygu ymatebion cryfach yn y maes hwn, ceir enghreifftiau lle mae aseswyr wedi anodi gwaith fel enghraifft o ddangos gofal person-ganolog er nad oedd fawr ddim, neu ddim tystiolaeth ategol yn ymateb yr ymgeisydd. Dylai canolfannau sicrhau bod y penderfyniadau asesu yn cael eu cefnogi'n llawn gan y dystiolaeth a gyflwynir.

Mae'r defnydd o amrywiaeth ehangach o ffynonellau ymchwil wedi parhau i wella ac wedi cryfhau ansawdd ymchwiliadau ymgeiswyr. Trwy dynnu ar ffynonellau amrywiol a pherthnasol, mae llawer o ymgeiswyr wedi gallu datblygu ymatebion mwy manwl a chytbwys sydd wedi'u cefnogi'n dda, gan eu helpu i fodloni gofynion y bandiau marciau uchaf.

© WJEC CBAC Ltd.2026

(b) Dadansoddi'r ffordd mae tueddiadau lleol a chenedlaethol, demograffeg a mentrau'r llywodraeth yn effeithio ar ddarparu gofal ar gyfer y grŵp targed a ddewiswyd

Dangosodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr ddealltwriaeth glir o'r dasg, ac roedd yn galonogol gweld llai o ymatebion yn tynnu ar dueddiadau o wledydd eraill, fel UDA, lle nad oedd y wybodaeth yn berthnasol yn uniongyrchol i'r asesiad. Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr yn dal i gyfeirio at ddata o Loegr nad oedd yn berthnasol iawn i Gymru nac i bolisïau a mentrau yng Nghymru. I fodloni gofynion y dasg yn llawn a chyrraedd y bandiau marciau uchaf, rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod unrhyw ddata a thystiolaeth a ddefnyddir yn berthnasol i gyd-destun Cymru a'r grŵp targed a ddewiswyd.

Ar y cyfan, roedd yr ymgeiswyr wedi cymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fentrau a chanllawiau perthnasol yn effeithiol, gan esbonio'n glir sut mae'r rhain yn cefnogi iechyd a llesiant y grŵp targed a ddewiswyd ganddynt. Dangosodd ymatebion cryfach gysylltiadau clir rhwng y dystiolaeth a gyflwynwyd ac effaith y mentrau hyn ar ganlyniadau i unigolion.

Mae'r defnydd o dablau yn dal i fod yn ddull cyffredin o gyflwyno gwybodaeth. Er bod y dull hwn yn gallu bod yn effeithiol i drefnu cynnwys a chefnogi ymgeiswyr isel eu cyrhaeddiad, gall hefyd gyfyngu ar gyfleoedd i ddadansoddi a gwerthuso yn fwy manwl. Dylid annog ymgeiswyr sy'n anelu am y bandiau marciau uchaf i ddefnyddio fformatau sy'n eu galluogi i ddatblygu eu syniadau yn fwy llawn a darparu trafodaeth fwy cynhwysfawr o'r data a'r dystiolaeth a gyflwynir.
Mae cynnwys a chyfeirnodi gwybodaeth ffynhonnell wedi parhau i wella, ac mae'r rhan fwyaf o ganolfannau yn dangos ymarfer da yn y maes hwn. Mae hyn wedi cryfhau hygrededd gwaith ymgeiswyr ac wedi cynorthwyo'r broses o ddatblygu ymatebion sy'n dangos ôl gwaith ymchwil da ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

(c) Ymchwilio i weithgareddau ystyrlon i ddiwallu un o anghenion penodol y grŵp targed dan sylw

Dangosodd sampl o nifer bach o ganolfannau fod yr holl ymgeiswyr wedi ymchwilio i'r un gweithgareddau, yn hytrach na dewis gweithgareddau'n annibynnol. Oherwydd mai nod yr Asesiad Di-arholiad yw asesu ymchwil annibynnol a gwneud penderfyniadau, dylai canolfannau osgoi annog dull unffurf ac yn hytrach gefnogi ymgeiswyr i wneud eu penderfyniadau gwybodus eu hunain. Eto i gyd, roedd yn braf gweld nifer o opsiynau ar gyfer gweithgareddau diddorol ac amrywiol yn cael eu harchwilio eleni.

Ar y cyfan, dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth gadarn o sut roedd y gweithgareddau a ddewiswyd ganddynt yn ymwneud ag egwyddorion *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*. Cafwyd tystiolaeth glir o wybodaeth a dealltwriaeth o bwrpas y gweithgareddau yr ymchwilwyd iddynt, ac esboniodd llawer o'r ymgeiswyr yn effeithiol sut roeddent yn cefnogi anghenion corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol (PIES) y grŵp targed a ddewiswyd ganddynt.

O'i gymharu â'r llynedd, roedd llai o ymgeiswyr wedi dibynnu ar fformatau sy'n seiliedig ar dablau i gyflwyno eu gwaith yn yr adran hon. Roedd hwn yn ddatblygiad cadarnhaol, gan fod ymatebion ysgrifenedig mwy estynedig yn galluogi ymgeiswyr i esbonio, dadansoddi a gwerthuso yn fwy manwl, gan eu helpu i gyrraedd y bandiau marciau uwch.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Dangosodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr ddealltwriaeth glir o bwrpas a manteision y gweithgareddau a ddewiswyd ac roeddent yn gallu gwneud cysylltiadau perthnasol ag anghenion a llesiant eu grŵp targed.

(d) Cynllunio a chreu gweithgaredd ystyrlon er mwyn bodloni angen penodol y grŵp targed a ddewiswyd ac sy'n helpu i hybu hunan-hunaniaeth, hunan-werth ac ymdeimlad o sicrwydd neu wydnwch

Dewiswyd llawer o weithgareddau addas gan ymgeiswyr, ac unwaith yn rhagor roedd pobi yn ddewis poblogaidd iawn. Fodd bynnag, roedd samplau o rai canolfannau yn awgrymu bod cyfran fawr o ymgeiswyr wedi gwneud yr un gweithgaredd ni waeth pa grŵp targed a ddewiswyd ganddynt. Er bod y gweithgaredddau yn gallu bod yn briodol mewn rhai amgylchiadau, dylai ymgeiswyr gael eu hannog i ddewis gweithgareddau sy'n addas i anghenion, diddordebau a galluoedd penodol eu grŵp targed unigol.

Roedd y dewis o leoliad ar gyfer cynnal gweithgareddau yn briodol ar y cyfan yn y rhan fwyaf o ganolfannau. Fodd bynnag, cafwyd rhai achosion lle na chafodd gweithgareddau eu cynnal mewn lleoliadau a oedd yn adlewyrchu lleoliad gofal perthnasol. Roedd yn galonogol gweld ymdrechion clir gan sawl canolfan i ddarparu profiadau realistig mewn lleoliadau priodol, fel cartrefi gofal preswyl, fel y dangoswyd yn y ddogfennaeth ffotograffig. Mae dulliau o'r fath yn gwella realaeth a dilysrwydd y dasg ac yn cefnogi ymgeiswyr i ddangos eu dealltwriaeth o ymarfer gofal.

Mewn rhai achosion, nid oedd ymgeiswyr wedi darparu tystiolaeth bod y gweithgareddau wedi cael eu cwblhau yn unol â'r disgrifiad. Mae hyn yn cynnig heriau wrth gymedroli, oherwydd gall fod yn anodd penderfynu sut cafodd penderfyniadau asesu eu gwneud heb dystiolaeth ategol. Gan fod cwblhau a darparu'r gweithgaredd yn rhan ganolog o'r asesiad, dylai canolfannau sicrhau bod tystiolaeth briodol yn cael ei darparu, gan ddangos bod gweithgareddau wedi cael eu cynnal mewn lleoliad gofal sy'n berthnasol i'r grŵp targed a ddewiswyd. Yn yr achosion hynny lle cafodd datganiadau tystion eu cynnwys, roeddent yn ddefnyddiol iawn wrth gefnogi'r broses gymedroli a dilysu penderfyniadau asesu.

Gwelwyd rhywfaint o welliant ers y llynedd o ran yr ystyriaeth o iechyd a diogelwch, er bod ymatebion yn dal i fod yn eithaf sylfaenol mewn rhai canolfannau. Ar adegau, mae ymgeiswyr yn cael marciau yn y bandiau uwch er iddynt ddarparu tystiolaeth gyfyngedig o ystyriaethau iechyd a diogelwch neu gynllunio. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod gofynion y fanyleb a disgrifiadau'r bandiau marciau yn cael eu cymhwyso'n gywir ac yn gyson. I gyrraedd y bandiau marciau uwch, dylai ymgeiswyr ddangos cynllunio trylwyr ac effeithiol, wedi'i gefnogi gan dystiolaeth glir a manwl.

Mae ystyriaeth o strategaethau, technegau a dulliau o gasglu adborth yn faes i'w ddatblygu o hyd. Mae llawer o ymgeiswyr yn dal i nodi un dull o gasglu adborth yn unig, gan gyfyngu ar ddyfnder y gwerthusiad y gellir ei gyflawni. Roedd ymatebion cryfach wedi ystyried amrywiaeth o ddulliau adborth priodol a chyfiawnhau eu haddasrwydd, gan roi cyfleoedd i gasglu tystiolaeth fwy ystyrlon ac amrywiol am effeithiolrwydd y gweithgaredd.

(e) Dadansoddi a gwerthuso'r dasg

Cafodd yr adran hon ei chwblhau'n llwyddiannus gan lawer o ymgeiswyr eleni, ac roedd yr ymatebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o ofynion y dasg.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Defnyddiodd yr ymgeiswyr amrywiaeth o ddulliau i gyflwyno eu canfyddiadau, gan gynnwys graffiau, siartiau cylch a thablau, ac mewn sawl achos, cafodd y rhain eu cefnogi gan ddadansoddiad effeithiol o'r adborth a dderbyniwyd. Roedd yn galonogol iawn i weld ymgeiswyr yn defnyddio'r adborth hwn mewn ffordd ystyrlon yn eu gwerthusiadau, gan ddangos gallu i fyfyrio ar effeithiolrwydd eu gweithgareddau a nodi meysydd i'w datblygu.

Ar y cyfan, roedd yr ymgeiswyr a lwyddodd i gyrraedd y bandiau marciau uwch wedi darparu gwerthusiadau manwl a oedd wedi'u seilio'n gadarn ar yr adborth a gasglwyd. Fodd bynnag, cafodd rhai ymgeiswyr a oedd yn gweithio yn y bandiau marciau is drafferth i ddatblygu eu hymatebion yn ddigonol, ac yn aml roeddent yn nodi cryfderau a gwendidau heb gyfeirio fawr ddim at y data a gasglwyd. Yn yr achosion hyn, roedd gwerthusiadau yn tueddu i fod yn ddisgrifiadol yn hytrach nag yn ddadansoddol, ac roeddent yn dangos ystyriaeth gyfyngedig o'r dystiolaeth a ddarparwyd yn yr adborth. Roedd yn braf nodi, yn y rhan fwyaf o achosion, bod sylwadau yn adlewyrchu'n gywir y gwahaniaethau hyn o ran perfformiad ac yn cefnogi'r marciau a ddyfarnwyd.

Mae nodi gwelliannau realistig a phriodol yn faes i'w ddatblygu ymhellach o hyd ar gyfer rhai ymgeiswyr. Er bod llawer o ymgeiswyr yn gallu awgrymu newidiadau, nid oeddent bob amser wedi'u cysylltu'n amlwg â chanfyddiadau'r gwerthusiad neu nid oeddent wedi'u cyfiawnhau'n llawn. I gyrraedd y bandiau marciau uwch, dylai ymgeiswyr ddarparu argymhellion cyraeddadwy ar gyfer gwelliannau, sydd wedi'u hystyried yn dda ar gyfer ac wedi'u cefnogi gan resymau clir a thystiolaeth o'r adborth a gafwyd.

Oherwydd bod yr adran hon yn cynnwys asesiad o sillafu, atalnodi a gramadeg, roedd yn braf gweld bod y rhan fwyaf o ganolfannau wedi cymhwyso'r meini prawf marcio yn briodol wrth ddyfarnu marciau. Ar y cyfan, roedd safonau yn yr adran hon yn gryf, a lluniodd llawer o ymgeiswyr werthusiadau meddylgar, yn seiliedig ar dystiolaeth a oedd yn dangos dealltwriaeth dda o bwrpas a gwerth ymarfer adfyfyriol.

Sylwadau am ddulliau marcio mewnol

- Sicrhewch fod ymgeiswyr ac athrawon yn llofnodi ac yn dyddio'r datganiad. Nodwch fod dilysu gwaith ymgeiswyr yn orfodol.

- I sicrhau marcio cywir, sicrhewch fod y canllawiau marcio a'r fanyleb sydd ar gael ar wefan CBAC yn cael eu defnyddio i sicrhau bod y bandiau marciau cywir yn cael eu dyfarnu.

- Mae angen cynnwys ffynonellau tystiolaeth yn glir ar gyfer pob tasg, ac mae anodi lle mae marciau wedi'u dyfarnu naill ai ar y clawr blaen neu ar waith yr ymgeiswyr o gymorth mawr i'r broses gymedroli.

- Mae datganiadau tystion gan aseswyr a thystiolaeth ffotograffig o gymorth wrth sicrhau bod ymgeiswyr wedi cwblhau eu gweithgareddau.

- Rhaid defnyddio lleoliadau gofal; lleoliadau addysg yw ysgolion ac ni allant gael eu defnyddio yn lle lleoliadau gofal.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Eich cefnogi chi

Manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol

Mae ein tîm pwnc cyfeillgar wrth law i'ch cefnogi rhwng 8.30 a.m. a 5.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Ffôn: 029 2240 4264
E-bost: HSCandCC@wjec.co.uk
Tudalen y cymhwyster ar y we: https://www.dysguiechydagofal.cymru/cymwysterau/gcse-health-and-social-care-and-childcare-single-and-double-award/

Gweler manylion cyswllt defnyddiol eraill yma: Manylion Cyswllt Defnyddiol | CBAC

Hyfforddiant DPP / Dysgu Proffesiynol

Manteisiwch ar ein cyrsiau DPP/DP ar-lein rhad ac am ddim poblogaidd i gael adborth ar arholiadau ac i ofyn cwestiynau i'n tîm pwnc, a dewch i un o'n digwyddiadau wyneb yn wyneb, sy'n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, darparu syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a datblygu dealltwriaeth o farcio ac asesu.

Mae manylion ynghylch ein holl gyrsiau i'w cael yma: https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/

Cymwysterau CBAC

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn cefnogi ei gymuned addysg drwy ddarparu cymwysterau dwyieithog ac asesiadau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol i ysgolion a cholegau ar draws y wlad. Mae hyn yn caniatáu i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.

Gyda thros 70 mlynedd o brofiad, rydym hefyd ymhlith y prif ddarparwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

© WJEC CBAC Ltd.2026



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.2026